# Canllaw ar Hunan-lenwi



baywater HEALTHCARE

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Dod i Adnabod Rhannau o'ch Dyfais Hunan-lenwi **3**

Am ba Hyd y Mae'r Silindr Llawn yn Para **4**

Sut i Ddefnyddio eich Dyfais Hunan-lenwi **5**

Cynnal a Chadw a Glanhau **9**

Datrys Problemau **10**







ENHANCING LIVES

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Dyfais Hunan-lenwi

**A** Silindr
**B** Uned lenwi ocsigen
**C** Y twll llenwi
**D** Gorchudd llwch
**E** Stand
**F** Peiriant ocsigen
**G** Allfa ocsigen
**H** Mesurydd llif/nodyn addasu
**I** Goleuadau'r dangosydd
**J** Switsh On/Off
**K** Mesurydd awr




(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Am ba Hyd y mae'r Silindr Llawn yn Para

**Am ba hyd y mae silindrau hunan-lenwi yn para**

| Gosodiad | HF2PCR6 | HF2PCE9 |
|---|---|---|
| 1 | 9 awr 18 munud | 14 awr 18 munud |
| 2 | 5 awr 54 munud | 9 awr 6 munud |
| 3 | 4 awr 30 munud | 6 awr 54 munud |
| 4 | 3 awr 36 munud | 5 awr 36 munud |
| 5 | 3 awr | 4 awr 42 munud |
| Parhaus (2 lpm) | 1 awr 20 munud | 2 awr 5 munud |

Sylwch: Mae eich silindr a'ch dyfais hunan-lenwi yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG.

**Rhybudd**
Sicrhewch fod y peiriant ocsigen yn cael ei gadw'n syth bob amser.

Cysylltwch eich peiriant ocsigen â'r prif gyflenwad trydan – peidiwch â defnyddio cebl estyniad

Yn unol â'r cyfarwyddyd a gawsoch gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol, gwnewch yn siŵr fod y gyfradd llif ar eich peiriant ocsigen wedi'i gosod i'r gosodiad cywir.

Peidiwch â chyfyngu'r llif aer o amgylch y peiriant ocsigen.

# Sut i Ddefnyddio Eich Dyfais Hunan-lenwi

## Sut i ddefnyddio'r peiriant ocsigen heb yr uned lenwi

- Gwnewch yn siŵr bod eich uned lenwi wedi'i diffodd ac nad oes silindrau wedi'u cysylltu â hi.
- Plygiwch y peiriant ocsigen i mewn i soced – peidiwch â defnyddio cebl estyniad.
- Pwyswch y switsh "power" - byddwch chi'n clywed sŵn larwm, a bydd goleuadau'r panel yn goleuo.
- Ar ôl eiliad, bydd y goleuadau'n diffodd gan adael dim ond y golau O2 gwyrdd ymlaen.
- Gwnewch yn siŵr bod y bêl yn y mesurydd llif yng nghanol y llif a gafodd ei roi ar bresgripsiwn. Os nad yw'r bêl yng nghanol eich cyfradd llif a gafodd ei rhoi ar bresgripsiwn, defnyddiwch y nobyn i addasu'r llif nes ei bod yn cyfateb i'r llif cywir.
- Diffoddwch y ddyfais pan nad ydych chi'n ei defnyddio.

**Rhybudd**

Dim ond y gyfradd llif a gafodd ei rhoi ar bresgripsiwn gan eich Gweithiwr Gofal Proffesiynol y dylech chi ei defnyddio.

Peidiwch byth â gadael silindrau yn sownd i'r uned lenwi ocsigen pan nad ydynt yn cael eu llenwi. Cyfeiriwch at yr adran silindrau ar sut i storio eich silindr hunan-lenwi.





## Sut i lenwi'r silindr hunan-lenwi

### 1. Cyn llenwi



- Trowch y peiriant ocsigen ymlaen am o leiaf 30 munud cyn ceisio ail-lenwi silindrau.
- Gwiriwch y gwasgedd ar y silindr. Os yw'r gwasgedd yn is na chwarter llawn, mae eich silindr yn barod i gael ei ail-lenwi.
- Tynnwch y pigynnau trwynol o'r silindr.
- Diffoddwch y deial llif glas ar y silindr i ffwrdd.
- Tynnwch y caeadau llwch du os oes modd gwneud hynny - pinsiwch a thynnwch ar y caead.




## 2. Cysylltwch y silindr â'r uned lenwi

- Ar yr uned lenwi ocsigen, pwyswch ar gylch allanol y twll llenwi nes bod dotiau gwyrdd yn ymddangos.
- Gafaelwch yn y silindr wrth y gwddf (y tu ôl i'r mesurydd cynnwys).
- Rhowch y silindr yng nghrud yr uned lenwi ocsigen.
- Gosodwch dwll llenwi'r silindr gyda thwll llenwi'r uned lenwi ocsigen.
- Gwthiwch i fyny ar gylch allanol y twll llenwi ar yr uned lenwi ocsigen, a gwthio'r silindr i lawr.

**Pan mae'r nodwydd ar ddeial y silindr yn y parth coch, mae angen llenwi'r silindr. Os yw'r silindr eisoes yn chwarter llawn, mae'n bosibl na fydd y silindr yn llenwi pan fydd wedi'i atodi.**

### 3. Trowch yr uned lenwi ymlaen

Trowch yr uned lenwi ocsigen ymlaen. Dylai'r canlynol ddigwydd:

- 0-3 munud: bydd y golau 'O2 below normal' yn goleuo wrth i'r uned lenwi gynhesu.
- Ar ôl tri munud: bydd y golau 'filling' yn goleuo tra bydd y silindr wrthi'n llenwi.
- Pan fydd y silindr yn llawn: bydd y golau llenwi yn diffodd, a bydd y golau 'full' yn troi ymlaen.
- Mae'n cymryd tua dwy awr i lenwi silindr gwag.

Os bydd nam yn ystod y broses lenwi, bydd y golau 'attention' yn goleuo.

### 4. Tynnu'r silindr

- Unwaith y bydd y silindr yn llawn, diffoddwch yr uned lenwi.
- Gydag un llaw, gafaelwch yn y silindr drwy roi eich llaw y tu ôl i'r deial cynnwys.
- Gyda'r llaw arall, daliwch gylch allanol y cysylltydd ar gyfer y twll llenwi, a'i bwyso i lawr.
- Codwch y silindr er mwyn tynnu'r cysylltydd.
- Gollyngwch gylch allanol y twll llenwi ar yr uned lenwi ocsigen, a defnyddiwch ddwy law i dynnu'r silindr o'r crud.
- Rhowch y caeadau llwch du ar dwll llenwi'r uned lenwi ac ar dwll llenwi'r silindr.

**Rhybudd**
Peidiwch byth â thynnu'r silindr o'r uned lenwi ocsigen pan fydd wedi'i droi ymlaen.



# Cynnal a Chadw a Glanhau

**Unwaith y dydd:**

- Glanhewch yr uned lenwi gyda chadach sych a glân.
- Edrychwch ar y silindr am ddifrod, a gwnewch yn siŵr bod y caead llwch du yn cael ei newid pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.
- Golchwch yr holl hidlyddion ewyn naill ai gyda dŵr cynnes a sebon, neu defnyddiwch hwfer i gael gwared ar unrhyw lwch. Mae dau hidlydd, un yn yr uned lenwi ac un yn y peiriant ocsigen.

**Rhybudd**

Golchwch yr hidlyddion yn drylwyr a gwnewch yn siŵr eu bod yn sych cyn eu newid.

Peidiwch â defnyddio eich peiriant ocsigen heb hidlyddion.

Peidiwch â storio silindrau hunan-lenwi o dan y rhewbwynt



# Datrys problemau

1. Os bydd y larwm yn seinio ar ôl i'r peiriant gael ei droi ymlaen, neu os nad yw'r larwm yn stopio seinio ar ôl ychydig eiliadau, gwnewch yn siŵr bod y soced trydan ar y wal wedi'i droi ymlaen. Os yw'r soced wedi'i droi ymlaen, diffoddwch y peiriant ocsigen a'i droi ymlaen eto. Os bydd y larwm yn dal i seinio, gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth yn yr hidlydd wedi blocio nac yn llychlyd. Edrychwch ar y peiriant yr holl ffordd o'r peiriant ocsigen hyd at y pigynnau trwynol neu'r masg i wneud yn siŵr nad oes unrhyw beth yn y tiwbiau wedi blocio. Os nad yw'r gwiriadau hyn yn helpu, ffoniwch ni i gael rhagor o arweiniad.

2. Os nad oes modd teimlo ocsigen yn dod o'r pigynnau trwynol neu'r masg, gwiriwch y tiwb llif i wneud yn siŵr bod y gosodiad yn gywir, a gwneud yn siŵr bod y deial yn gywir. Cofiwch na ddylid defnyddio masg gyda'r silindrau cludadwy. Os yw'r gosodiad llif ar y tiwb llif ar sero, ac os nad oes modd i chi ei droi i fyny, ffoniwch ni i gael rhagor o arweiniad.



3. I brofi’r llif o’r peiriant ocsigen, gallwch chi roi’r tiwbiau ocsigen mewn gwydraid o ddŵr i weld a oes swigod yn ymddangos. Os bydd swigod, mae hyn yn golygu bod ocsigen yn cael ei gynhyrchu. Os nad oes swigod yn ymddangos, edrychwch ar y tiwbiau ocsigen am arwyddion o dyllau neu rwyg. Os nad ydych chi’n gallu datrys y broblem, ffoniwch ni ar 0800 373580 i gael rhagor o arweiniad.

4. Os nad oes modd teimlo llif yn dod o’r silindr ocsigen. Gwnewch yn siŵr nad oes tyllau na phlygiadau yn y tiwb, a’i fod wedi’i gysylltu â’r silindr yn gywir. Gwiriwch y mesurydd cynnwys i sicrhau nad yw’r silindr yn wag. Os na fydd yr un o’r camau hyn yn datrys y broblem, ffoniwch **0800 373580** i gael cyngor.



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

16/320/UK-FEB20 v1